

CYD-GRŴP CRAFFU'R PARCIAU CENEDLAETHOL AR YR ECONOMI
6 Mai 2015

Yn bresennol:

Cynrychiolwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

Aelodau: Mrs G Hayward (Cadeirydd), y Cynghorwyr DGM James a B Kilmister, a Mr AE Sangster.

Swyddogion: Mr Tegryn Jones, Prif Weithredwr a Mrs Janet Evans, Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd.

Cynrychiolwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

Aelodau: Dr I ap Gwynn, y Cynghorwyr A Gruffydd, J MacLennan, C Roberts a Mrs E Roberts.

Swyddogion: Mr. GI Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Mr. J Cawley, Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol.

(Cyfarfod fideo-gynadledda rhwng Parc Llanion, Doc Penfro a Phenrhyndeudraeth: 2.00p.m. – 3.00p.m.)

1. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol oddi wrth y Cynghorwyr E Edwards (APCE) a RM Lewis (APCAP), a Mr Emyr Williams, Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod ar gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

CYTUNWYD y dylid cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2015 ar yr amod bod enw'r Dr Iolo ap Gwynn yn cael ei gywiro.

4. Adroddiad draft am y canfyddiadau

Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Aelodau at ei hadroddiad drafft am y canfyddiadau, a'r argymhellion ynddo. Diolchodd i Mr AE Sangster am ei gymorth a'i gyngor yn ystod y cyfnod drafftio.

Cafwyd trafodaeth faith ynghylch agweddau cyffredinol a phenodol yr adroddiad. Trafowyd a ddylid cyhoeddi'r adroddiad at ddefnydd mewnol yn unig fel llinell sylfaen ar gyfer gwneud rhagor o ymchwil i waith yr Awdurdodau Parc Cenedlaethol.

Derbyniodd yr Aelodau bod angen gwneud newidiadau i'r adroddiad a bod angen cynnwys enghreifftiau/cyfeiriadau eraill cyn y gellid ei gwblhau.

CYTUNWYD y dylai'r Awdurdodau roi rhagor o sylwadau/tystiolaeth er mwyn cyflwyno adroddiad drafft terfynol i'w gymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.